DATGANIAD I'R WASG

MAY YOU LIVE IN INTERESTING TIMES: GŴYL TECHNOLEG GREADIGOL, CAERDYDD

DYDD IAU 22 – DYDD SADWRN 24 HYDREF 2009

Mae May You Live in Interesting Times yn ŵyl sydd yn cael ei chynnal dros gyfnod o dridiau bob yn ail flwyddyn. Mae hi'n canolbwyntio ar yr agwedd 'do-it-yourself' ac yn cyflwyno rhaglen sydd yn dathlu'r syniadau a'r ffyrdd diweddaraf o ddefnyddio technoleg bob dydd ac arloesi cymdeithasol. Mae'r ŵyl yn seiliedig ar egwyddor o rannu syniadau.

Mae'r rhaglen yn cynnwys amrywiaeth eang o gomisiynau, arddangosfeydd, trafodaethau, gweithdai, dangosiadau a digwyddiadau defnyddwyr. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys:

Alfred Sirleaf: Analogue Blogger, o Liberia; arddangosfa unigol gyntaf Eddo Stern yn y DG; Ghana Think Tank fydd yn datrys problemau Cymru; sioe gwis unigryw wedi'i gyrru gan ymatebion a chyfraniadau defnyddwyr, gyda chymorth The People Speak; 'unConference' fydd yn archwilio arbrofi technolegol, 'Maker Faire' cyntaf Cymru ac amrywiaeth o gomisiynau newydd gan artistiaid o Gymru.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â thîm yr Ŵyl ar 029 2132 8082, 07531 486 886, e-bostiwch admin@mayyouliveininterestingtimes.org.uk neu ewch i we-fan www.mayyouliveininterestingtimes.org.uk lle cewch weld y rhaglen lawn neu lawr-lwytho Dyddiadur yr Ŵyl ar ffurf PDF trwy glicio ar 'Amserlen'.

Mae May You Live in Interesting Times, Gŵyl Technoleg Greadigol, yn bartneriaeth rhwng bloc: Technoleg Greadigol Cymru a Chapter. Datblygwyd rhaglen Gŵyl 2009 ar y cyd â'r Cyngor Prydeinig, Ffotogallery a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Cafwyd cefnogaeth bellach gan: @Wales, Academi, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyfle, Cardiff & Co, Gŵyl Ddylunio Caerdydd, ELFEN, G39/WARP, iShed, Make Faire, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Theatr Genedlaethol Cymru, Safle, Prifysgol Morgannwg, Prifysgol Cymru, Casnewydd, Rhwydwaith Arloeswyr Cymru, UnLtd a 4iP.

UCHAFBWYNTIAU'R ŴYL

Alfred Sirleaf, Analogue Blogger: Millennium Walk, cyfredol
Alfred yw Cyfarwyddwr Daily Talk, ciosg newyddion yng nghanol Liberia, Monrofia yng Ngorllewin Affrica. Mae'n casglu newyddion lleol trwy gyfrwng ei ffôn symudol ac yna'n cyhoeddi'r newyddion diweddaraf i fwy na 10,000 o ddarllenwyr dyddiol. Yn ystod yr ŵyl, bydd Alfred yn gweithredu sianel newyddion symudol fydd yn annog aelodau o'r cyhoedd i decstio newyddion lleol a newyddion o'r Ŵyl ato er mwyn creu porth newyddion bywiog fydd yn cysylltu'r ddinas a'r Ŵyl.

Arddangosfa Eddo Stern: Dydd Iau 22 Hydref, Oriel Chapter, 7-9.30yh a chyfredol
Mae Eddo yn artist Americanaidd/Israelaidd o bwys ac ar flaen y gad ym maes gwaith arbrofol. Mae ei waith yn cynnwys addasiadau o gêmau fideo, 'machinima' a gosodiadau ac yn archwilio dulliau newydd o gyflwyno naratif a dogfen, technoleg a hanes a chynrychioliad croes-ddiwylliannol ar ffilm, mewn gêmau cyfrifiadurol ac ar y we. Dyma ei arddangosfa unigol gyntaf yn y DG.

Ghana Think Tank: Dydd Iau 22 Hydref, Ffotogallery, Tŷ Turner, 6-8yh a chyfredol
Mae Ghana Think Tank yn amalgam o nifer o 'think tanks' rhyngwladol a gomisiynwyd i ddatrys problemau Cymru. Mewn cyfres o ddigwyddiadau cymdeithasol chwareus, caiff ateb ei gynhyrchu mewn un cyd-destun a'i roi ar waith mewn cyd-destun arall, a hwnnw'n aml ar ochr arall y byd. Mae blychau postio ledled Caerdydd a Phenarth, a chyfweliadau gyda phobl ar y stryd, wedi helpu i greu rhestr o broblemau sy'n ymwneud â bywyd bob dydd.

'Micro Maker Faire' Cymru: Dydd Gwener 23 a Dydd Sadwrn 24 Hydref, Stiwdio Chapter, 11yb-4yp
Digwyddiad bywiog i'r rheiny sy'n hoff o DIY! Bydd unigolion a grwpiau'n dod at ei gilydd i ddangos eu dyfeisiau technolegol cartref yn y digwyddiad hwn sydd yn rhyw fath o weithdy technolegol a ffair leol yn un! Bydd 20 o unigolion a sefydliadau'n ymuno â ni i ddathlu dyfeisgarwch, gan gynnwys Solar Powered Spin Painting; The Amazing Rolo; Dorkbot Bristol; Kathy Hinde's Music Box Mapping; dyfeisiau sy'n gwneud Smoothies â phŵer pedalu; gweithdy gwau 'media mittens' a llawer iawn mwy! Byddwch yn barod i gael eich synnu a'ch diddanu ac i fynd adre'n llawn gwybodaeth ac ysbrydoliaeth.

The People Speak, Who Wants to Be…?: Dydd Gwener 23 Hydref, Sinema 1 Chapter, 7yh - hwyr
Sioe gwis lle bydd cyfle gan aelodau'r gynulleidfa i gynnig syniadau, trafod opsiynau (da, gwael neu wallgo'), ac yna bleidleisio mewn proses gomisiynu fydd yn defnyddio holl refeniw'r swyddfa docynnau y noson honno a system bleidleisio ryngweithiol. Wrth ofyn i'r gynulleidfa osod y cwestiynau, darparu'r atebion a phennu'r rheolau, mae Who Wants to Be…? yn gipolwg ar bosibiliadau'r dychymyg cyfun. Peidiwch â cholli'r cyfle i gymryd rhan; ewch i http://www.chapter.org/17069.html i archebu'ch sedd.

unConference: arbrofi technolegol, y 10 mlynedd nesaf a thu hwnt...: Dydd Gwener 23 Hydref, Gofod Cyntaf Chapter, 9yb-5yp
Beth yw'r dyfodol i dechnolegau DIY ym meysydd menter a gwaith creadigol? Beth allem NI ei wneud? Pa offer fydd eu hangen arnom a beth sy gennym NI i'w gynnig? Bydd y digwyddiad arloesol hwn yn archwilio'r posibiliadau y mae technolegau DIY yn eu cynnig i artistiaid ac *entrepreneurs* creadigol sy'n gweithio'n groes-ddisgyblaethol a chroes-ddiwylliannol. Yn wahanol i gynhadledd arferol, mae unConference yn dibynnu'n llwyr ar ddeunydd a gynhyrchir gan y defnyddwyr eu hunain. Caiff yr agenda ei bennu gan gyfranwyr ac mae'n gyfle i chi rannu'ch syniadau, eich dyheadau a'ch prosiectau ar gyfer y dyfodol! Nifer cyfyngedig o leoedd fydd ar gael felly archebwch eich lle nawr... http://www.chapter.org/17071.html

Mae'r Ŵyl yn llawn o ddigwyddiadau a gweithgareddau eraill, gan gynnwys Dangosiadau, Clinigau, Gweithdai Datblygiad Proffesiynol, Perfformiadau Byw a Chomisiwn ar Flogio yn y Gymraeg.

Cewch hyd i'r holl fanylion ar ein gwe-fan, sydd wedi'i ddylunio i fod yn hygyrch a syml. Gallwch hefyd lawr-lwytho PDF sy'n cynnwys Map o'r canolfannau perthnasol ac amserlen. Mae'r amserlen hefyd yn nodi a ddylech chi archebu lle o flaen llaw ac a fydd angen talu ai peidio i fynychu digwyddiadau. www.mayyouliveininterestingtimes.org.uk